Cofnodion o Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 12fed Gorffennaf 2006 yn Neuadd y sir, Llandeilo am 8 .1 0pm

Presennol: Cyng Pam Steane Price, Maer Cyng Hugh Towns, Dirprwy Faer Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies
Mr Roger Phillips Clerc y Dref, Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid,
Mr Des Davies, Swyddog Technegol

Ymddiheuriadau : Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Edward Thomas

Cofnod 28/Gorffennaf / 06 Anfonebau i'w talu.

BT	£ 63.25
Dewis (cyfieithu cofnodion Ionawr, Chwefror)	£ 204.48
Goleuadau Nadolig (bracedi)	£ 378.94

Cynigiwyd talu gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace.
Roedd pawb o blaid.

Cofnod 29/ Gorffennaf / 06 Incwm a dderbyniwyd

Adennill TAW	£2681.33
Llog banc ar C/A	£ 3.59
CSC (grant llwybrau troed)	£ 683.42
Llog ar y Cyfrif Cynilo	£ 187.94

Cofnod 30/Gorffennaf / 06 Balansau'r Cyfrifon
Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol o gyllid y Cyngor:

LTC CYFRIF CYFREDOL (30.6.06	£ 19,518.75
LTC CYFRIF CYNILO (30.6 06)	£ 34,637.66
LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.6. 06)	£ 291.30
SIECIAU HEB EU TALU I MEWN AR 28.6.06	£ 9,400.00

Argymhellwyd bod mandad trosglwyddo o £10,000 i mewn i'r cyfrif cynilo gan y Swyddog Cyllid. Roedd pawb o blaid.

Cofnod 31/ Gorffennaf/ 06 Lwfans y Maer

Y lwfans a gytunwyd arno ar gyfer 2006-7 yw £ 3347
Argymhellodd y Swyddog Cyllid bod mandad trosglwyddiad banc o £1769.55 yn cael ei wneud i mewn i gyfrif y Maer.
Cyfrif y swm fel a ganlyn

Lwfans	£ 3347.00
Cost gwesteion y Maer	£ 288.00
Cyfanswm	£ 3635.00
Llai taliadau i'w gwneud	-£ 1865.45
Cyfanswm i'r drosglwyddo	**£ 1769.55**

Cynigiwyd gan y Cyng Richard Wallace ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cofnod 32 / Gorffennaf/ 06 Materion Ariannol Eraill.

1. **Adroddiad y Gyllideb**
   Cynigiodd y Cyng Hugh Towns gan na fydd Ceramica yn cael ei gynnal eleni y bydd £1000 yn cael ei ychwanegu i'r gyllideb rhoddion, fydd yn mynd â'r swm o £3000 i £4000.
   Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Richard. Roedd pawb o blaid.

2. **Adroddiad Archwiliadau Chwarterol (ar gyfer Ionawr, Chwefror, Mawrth 2006)**
   Cynigiodd y Cyng Pam Steane y dylid derbyn yr archwiliadau hyn fel rhai cywir. Eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

3. **Rhagolygon Cyllidol Tair Blynedd**
   Trafodwyd hyn fel modd o wneud yn siŵr bod cynllunio ar gyfer digwyddiadau neu brosiectau yn y dyfodol agos a phell yn ddiogel gan wybod fod yr arian yno i'w gefnogi. Cynigiodd y Cyng Hugh Towns y dylid dosbarthu taflen gyllidebol i Gynghorwyr ac y bydd y mater yn cael ei roi fel eitem agenda ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol. Eiliwyd gan y Cyng Pam Steane Price. Roedd pawb o blaid.

4. **Y Gofrestr Asedau**
   Mae'r cyfansymiau canlynol wedi'u cyfrif ar gyfer yr asedau sydd i'w cadw gan y Cyngor ar 31ain Mawrth, 2006 :-

Tir ac Adeiladau	£ 82,600.00
Offer Swyddfa	£ 2,505.00
Amrywiol Eitemau	£ 8,286.53
Cyfanswm Asedau	**£ 93,391.53**

   Argymhellodd y Cyng Hugh Towns bod y Gofrestr Asedau i'w derbyn gan y Cyngor Llawn. Eiliwyd gan y Cyng Pam Steane Price. Roedd pawb o blaid.
   Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chynrychiolydd gwerthu Konica Minolta er mwyn chwilio am brisiau am Lungopïwr newydd.

Cofnod 33 / Gorffennaf/ 06 Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

1. Llythyr o ddiolch oddi wrth ddwy ferch o Ysgol Tre-gib am y rhodd tuag at eu gwaith gwirfoddol dramor.
   Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â hwy yn eu gwahodd i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ym mis Medi.

Cofnod 34/ Gorffennaf / 06 Unrhyw eitemau eraill y mae'r Cadeirydd yn penderfynu eu bod yn ddigon pwysig i'w hystyried fel mater brys, yn unol ag adran 100B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Argymhellodd y Cyng Hugh Towns bod y Cyngor yn cael copi o'r les wedi'i arwyddo oddi wrth ei gyfreithwyr i'w ddefnyddio gan y Cyngor. Hefyd bod prosiect Neuadd y Sir i'w roi ar yr Agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.05 pm.



Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk



Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk